

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a
gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos
Fawrth, 6ed o Hydref 2020 drwy
fynychu o bell**

**Minutes of a meeting of the Council
held at 7:30 pm on Tuesday, 6th
October 2020 by way of remote
attendance**

Yn bresennol:

Cadeirydd: y Cynghorydd Lowri Jones; y
Cynghorwyr Sheila Davies, Lodwick
Lloyd, Dennis Morgan, Bryan Tomlins a
Caryl Vaughan.

Cynghorydd Sir Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:

Chairman: Councillor Lowri Jones;
Councillors Sheila Davies, Lodwick Lloyd,
Dennis Morgan, Bryan Tomlins and Caryl
Vaughan.

County Councillor Dafydd Edwards
Denfer Morgan (Clerk)

542 Ymddiheuriadau

Ymddiheuriodd y Cynghorwyr Jim
Hughes, Gwenno Piette, Aled Roberts a
Phil Tomlins am fethu a bod yn bresennol
yn y cyfarfod.

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-
gadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y
cyn-Gadeirydd blaenorol, y Cynghorydd
Lowri Jones.

542 Apologies and Procedure.

Councillors Jim Hughes, Gwenno Piette,
Aled Roberts and Phil Tomlins apologised
for their inability to attend the meeting.
In the absence of the Chairman and Vice-
Chairman, the immediate past Chairman,
Councillor Lowri Jones, chaired the
meeting.

543 Prosiect Fory

Cafodd y cyfarfod ei arwain gan y
Cynghorydd Lowri Jones drwy'r
ymarferiad hon a chytunwyd ei fod wedi
bod yn adeiladol ac yn fuddiol ac y
byddai sylwadau'r Aelodau yn cael eu
coladu a'u hanfon at drefnwyr y
Prosiect.

543 The Tomorrow Project

Councillor Lowri Jones led the meeting
through this exercise and it was agreed
that it had been constructive and
worthwhile and that the Members'
comments be collated and forwarded to
the project's organisers.

**544 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a
gynhaliwyd ar 1af Medi 2020**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r
Cyngor a gynhaliwyd ar 1af Medi 2020 fel
rhai cywir.

**544 Minutes of the Monthly Meeting held
on 1st September 2020**

The Minutes the Meeting of the Council
held on 1st September 2020 were
confirmed as being a correct record.

545 Materion yn codi o'r Cofnodion

- a) Cofnod 531c) - Roedd y postyn a'r
arwydd ar gyfer llwybr cyhoeddus 33/10
yn Albion Place wedi'i godi.
- b) Cofnod 531 - Roedd y bin ger yr arosfan
bws yn Llanon wedi ei roi yn ei ôl.
- c) Cofnod 541a) - - Roedd y blwch post yn
Llansantffraed wedi ei roi yn ei ôl.
- d) Cofnod 541c) - Dywedodd y
Cynghorydd Bryan Tomlins fod neges

545 Matters arising from the Minutes

- a) Minute 531c) - The post and sign for public
footpath 33/10 at Albion Place had been
erected.
- b) Minute 531 - The bin on the post near the
bus stop at Llanon had been replaced.
- c) Minute 541a) - The post box at
Llansantffraed had been returned.
- d) Minute 541c) - Councillor Bryan Tomlins
stated that a message had been left

wedi ei adael yn llongyfarch glendid y toiledau cyhoeddus ym Maes Parco'r Waun.

546 Archwiliad o Eiddo

Dywedodd y Cynghorydd Sheila Davies nad oedd yn ymdangos fod yna unrhyw broblem gyda'r man chwarae. Roedd angen tynnu'r rhwydi ar y cyrtiau tenis i lawr. Roedd y man eistedd yn ymddangos yn glir. Cafodd y gwaith o dorri'r tyfiant ar hyd y llwybrau cyhoeddus ei gyflawni'n foddhaol, ond gofynwyd i'r Clerc gadarnhau a oedd amodau'r contract yn gofyn i'r toriadau gwair gael eu cario i ffwrdd.

547 Meinciau

Adroddwyd nad oedd yna gais i roi mainc coffa newydd yn lle'r un a oedd wedi mynd a'i ben iddo ar lain y Cyngor. Prun bynnag, cynigiwyd y gellid gosod mainc newydd ar y sylfaen concriid gwag, a fyddai ar gael wedyn i osod placiau coffa arno fe gan deuluoedd. Cyfeiriwyd at y fainc a gafodd ei gymryd o'r chalet a chytunwyd archwilio ei gyflwr ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol. Cyfeiriwyd hefyd at y fainc a ddifrodwyd ar y cae chwarae a chynigiwyd gofyn i Matthew Butler i drwsio'r fainc. Cytunwyd hefyd bwrw mlaen i brynu mainc ar gyfer ei osod ar waelod y cae chwarae ger y man chwarae.

Rhodddwyd ystyriaeth hefyd i'r Polisi ar gyfer delio gyda cheisiadau ar gyfer gosod Meinciau Coffa ar dir y Cyngor a baratawyd gan y Cynghorydd Sheila Davies.

PENDERFYNWYD:

- i) bwrw mlaen i brynu meinciau ar gyfer y llain a'r cae chwarae;
- ii) gofyn i Matthew Butler drwsio'r fainc ar y cae chwarae; a
- iii) mabwysiadu'r Polisi ar gyfer Meinciau Coffa ac i ddiolch i'r

complimented the cleanliness of the public toilets at the Waun Car Park.

546 Property Inspection

Playground: Councillor Sheila Davies stated that there appeared to be no problem with the playground. The nets on the tennis courts needed to be taken down. The seating area appeared to be clear. The cutting of the growth along the public footpaths had been undertaken in a satisfactory manner, but the Clerk was asked to check the terms of the contract with regard to the disposal of grass cuttings.

547 Benches

It was reported that there was not a request to replace the dilapidated memorial bench on the Council's slang. However, it was suggested that a new bench could be placed on the empty concrete base, which would then be available for placing memorial plaques on it by families. Reference was made to the bench removed from the chalet and it was agreed that its condition be inspected for future possible use. Reference was also made to the damaged bench on the playing field and it was suggested that Matthew Butler be asked to repair this bench. It was also agreed to proceed to acquire a bench for locating at the bottom of the playing field in the vicinity of the playground.

Consideration was also given to the Policy for dealing with requests for placing Memorial Benches on Council land produced by Councillor Sheila Davies.

It was **RESOLVED**:

- i) to proceed to purchase the benches for the slang and the playing field;
- ii) to ask Matthew Butler to repair the bench on the playing field; and

Cynghordd Sheila Davies am ei gwaith yn paratoi'r ddogfen.

- iii) to adopt the Policy for Memorial Benches and to thank Councillor Davies for her work in preparing the document.

548 Y Chalet

Adroddwyd for Emyr Harries wedi dymchwel a gwaredu'r hen chalet. Dywedodd Mr Dafydd Edwards ei fod yn argymhell y dylid newid y cladin allanol pren a argymhellwyd ar gyfer y chalet gan estyll gronynnau sment.

Fe fyddai hwn yn cynnig amddiffyniad gwell ac yn para tipyn yn hirach. Dywedodd y Clerc fod yna gyllid digonol yn y gyllideb i gwrdd â'r gwariant ychwanegol a olygwyd gan hwn. Nid oedd yn rhagweld y byddai'r Cyngor Sir yn ychwanegu at y grant a ddyranwyd ar gyfer y cynllun, ond y byddai'r Clerc yn dilyn hwn i fyny.

PENDERFYNWYD

- i) nodi fod y chalet wedi cael ei ddymchwel a'i gymryd i ffwrdd; a
- ii) cymeradwyo newid y cladin pren gydag estyll gronynnau sment.

549 Materion Ariannol

PENDERFYNWYD talu'r anfonebau canlynol:

Matthew Butler (2il doriad y Cae Chwarae) - £150
Paent Chwistrelli (Ad-daliad i'r Cynghorydd Phil Tomlins) - £24
Emyr Harries (dymchwel y Chalet) - £288

550 Materion Covid-19 – y defnydd o ganolfannau cymunedol

Nodwyd na chafwyd canllawiau pellach oddi wrth Llywodraeth Cymru ynghylch agor canolfannau cymunedol fel neuaddau pentref a festrïon ar gyfer cynnal cyfarfodydd a gweithgareddau eraill; a byddai'n rhaid parhau gyda chyfarfodydd drwy fynychu o bell.

548 The Chalet

It was reported that Emyr Harries had demolished and disposed of the old chalet. Mr Dafydd Edwards stated that he was recommending that the timber exterior cladding proposed for the chalet be replaced by cement particle boarding. This would provide better protection and would last considerably longer. The Clerk advised that there was sufficient money in the budget to meet the additional expenditure involved. It was not anticipated that the County Council would increase its grant allocated for the scheme, but the Clerk would follow this up.

It was **RESOLVED**:

- i) to note the demolition and disposal of the Chalet; and
- ii) to approve replacing the timber cladding with cement particle boarding.

549 Finance Matters

It was **RESOLVED** to pay the following invoices:

Matthew Butler (2nd Playing Field cut) - £150
Spray Paint (Re-imbusement to Councillor Phil Tomlins) - £24
Emyr Harries (demolition of Chalet) - £288

550 Covid-19 Matters – Use of Community Centres

It was noted that no further guidance had been received from the Welsh Government in respect of allowing the opening of community centres such as village halls and vestries for hosting meetings and other activities; and that remote attendance meetings would have to continue.

551 Gwefan Newydd ar gyfer y Cyngor

Dywedodd y Clerc y byddai pecyn sylfaenol yn costio £950, tra byddai gwefan mwy, a fyddai'n cynnwys gwybodaeth cymunedol ychwanegol, yn costio tua £1,300.

PENDERFYNWYD dewis y pecyn sylfaenol a gynigir gan Vision ICT (a fyddai'n cynnwys dolenni i wefannau cyrff lleol) ac i fwrw 'mlaen i brynu gwefan newydd.

552 Tir ger y Fynedfa i Faes Parcio'r Waun

Cyflwynodd y Clerc y cais a dderbyniwyd oddi wrth berchnogion Rhif 2 Sutherlands i brynu'r darn yma o dir; a dywedodd nad oedd yna gysylltiad ffurfiol wedi'i wneud ar gyfer ei ddefnyddio fel gardd perlysiâu.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** peidio a chytuno i'r cais gan law dymuniad y Cyngor oedd i'w ddefnyddio ei hun yn y dyfodol ac i osod eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesa'r Cyngor i ystyried ei ddefnydd gan y Cyngor yn y dyfodol.

553 Maes Chwarae Llanon

Dywedodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Rheoli yn gwneud ymholiadau cychwynol ar gyfer perchnogi Cae Chwarae Llanon ond ni chafwyd ateb hyd yn hyn.

554 Unrhyw fater cymwys arall

- a) Cytunwyd cynnwys ar yr agenda nesaf trafodaeth ar y ffordd gorau o wella'r llwybr troed sy'n cychwyn yn Stryd y Capel.
- b) Dywedodd y Cyngorydd Sir Dafydd Edwards ei fod yn trafod gyda'r datblygwyr problemau dŵr ar arwyneb y datblygiad Cylch Peris, Dywedodd y Cyngorydd Bryan Tomlins fod angen ail-blannu cennin Pedr ar ochr y brif ffordd cyn y gwanwyn.
- c) Dywedodd y Cyngorydd Sir Dafydd Edwards fod swyddogion y Cyngor Sir yn adolygu'r camau o oedd y neu lle i rwystro parcio dros nos ym meysydd parcio'r Cyngor, gan gynnwys maes

551 New Website for the Council

The Clerk reported that a basic package for the Council would cost £950, whilst a larger website, containing additional community information, would cost in the region of £1,300.

It was **RESOLVED** to choose the basic package offered by Vision ICT (to include links to the websites of local organisations) and to proceed to buy a new website.

552 Land at the Entrance to the Waun Car Park

The Clerk reported the request received from the owners of No. 2 Sutherlands to purchase this parcel of land; and stated that no formal approach had been made in respect of its use as a community herb garden.

Following a discussion, it was **RESOLVED** not to agree to the request to sell the land as it was the Council's wish to utilise it in future and to place an item on the agenda for the next meeting to consider its future use by the Council.

553 Llanon Playing Field

The Clerk stated that he had written to the Management Committee with initial enquiries about acquiring the Llanon Playing Field but that no reply had been received to date.

554 Any Other Competent Business

- a) It was agreed to include on the next agenda a discussion on the best way to improve the condition of the footpath which commences at Stryd y Capel.
- b) County Councillor Dafydd Edwards stated that he was discussing surface water problems at the Cylch Peris development with the developers. Councillor Bryan Tomlins also stated that daffodils planted on the adjoining highway verge needed replacing before the spring.
- c) County Councillor Dafydd Edwards stated County Council officers were reviewing the steps in place to prevent overnight parking at the Council's car parks, including the Morfa car park.

parcio'r Morfa.
d) Gofynnodd y Cynghorydd Caryl Vaughan i'r Cyngor Sir edrych mewn i gangen coeden fawr a oedd wedi ei olchi ar hyd yr afon Peris ac wedi dod yn sownd ger Eglwys Llansantffraed.

d) Councillor Caryl Vaughan requested the that the County Council investigate a big branch which had washed down the river Peris and lodged near the Church at Llansantffraed.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:00pm

The meeting concluded at 9:00pm